

RHONDDA CYNON TAF

HOLIADUR ASESAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

HOLIADUR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Cyfarwyddiaeth: Addysg a Dysgu Gydol Oes

Maes Gwasanaeth: Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Swyddog cyfrifol: Julie Hadley

Dyddiad: 1 Hydref 2017

1. Enw'r polisi/gweithdrefn/ymarfer/prosiect: Creu Ysgol 'pob oed' 3 – 19 ar Gampws Garth Olwg, Pentre'r Eglwys

Nod y Prosiect yw:

Cau Ysgol Gyfun Garth Olwg (Uwchradd) ac Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (Cynradd), gan roi ysgol pob oed newydd yn eu lle ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed, gan ddefnyddio safleoedd ac adeiladau'r ysgol bresennol.

2. Nodau'r Polisi, mae angen i chi ystyried pam mae angen y polisi? Beth mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni drwyddo?
Sut y bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad?

Mae'r cynnig hwn wedi'i amlinellu'n llawn mewn dogfen ymgynghori fanwl sydd wedi'i dosbarthu i'r holl bartion a rhanddeiliaid â diddordeb, mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor i unrhyw berson i'w gweld neu ei lawrlwytho.

Rhaid pwysleisio nad yw'r cynnig hwn yn cynnwys cau, symud nac adleoli ffisegol unrhyw adeiladau neu gyfleusterau ysgol; bydd yr ysgol newydd yn defnyddio safle ac adeiladau'r ysgolion presennol. Ni fydd newidiadau gwirioneddol i'r adeiladau ac ystafelloedd a ddefnyddir na'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae adeiladau'r ysgol dim ond yn 10 oed ac maent o waith adeiladu modern, maent hefyd yn cydymffurfio'n llawn

â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Am nad oes unrhyw newidiadau gwirioneddol yn cael eu gwneud i adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol, crynodeb yn unig yw'r ddogfen asesu hon.

3. I bwy mae'n berthnasol? Nodwch drwy amlygu neu ddileu fel y bo'n briodol

Aelodau o'r cyhoedd Staff Y ddau Arall (nodwch): plant 3-19 oed sy'n byw yn nalgylchoedd YG Garth Olwg ac YGG Garth Olwg, rhieni a gofalwyr y plant hyn.

4. Nodwch a yw hwn yn gynnig newydd, yn adolygiad neu'n gynnig i derfynu:

Newydd Adolygiad Terfynu
Y tri.

5. Nodi Effeithiau – Dewiswch a fydd y polisi/ymarfer yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar **bob** mater isod: Meddyliwch am y cwestiynau allweddol a gynhwysir yn y canllawiau i reolwyr.

Pobl / materion i'w hystyried	Yr effaith y bydd y polisi / ymarfer yn ei chael			Os oes effaith gadarnhaol neu negyddol wedi'i nodi, esboniwch pam:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Oedran (ifanc a hen)	Ifanc – Uchel		Hen – isel	Bydd creu ysgol pob oed yn galluogi mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio adeiladau ac ystafelloedd addysgu a bydd yn galluogi ateb y galw am leoedd ychwanegol yn y sector Cyfrwng Cymraeg Cynradd, ac ar yr un pryd yn lleihau'r capasiti lleoedd gwag yn y sector Uwchradd Cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ddefnydd cost effeithiol ac effeithlon o adnoddau presennol.
Anabledd (cofiwch ystyried y gwahanol fathau o anabledd)	Uchel			Bydd yr ysgol newydd yn parhau i fod yn gwbl hygyrch i'r holl bersonau ac mae eisoes yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth bresennol yn hyn o beth.
Rhywedd			Isel	
Ailbennu Rhywedd			Isel	
Hil			Isel	
Crefydd neu Gred			Isel	

Pobl / materion i'w hystyried	Yr effaith y bydd y polisi / ymarfer yn ei chael			Os oes effaith gadarnhaol neu negyddol wedi'i nodi, esboniwch pam:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Cyfeiriadedd Rhywiol			Isel	
Y Gymraeg			Isel	
Gofalwyr			Isel	

TYSTIOLAETH

6. Pa dystiolaeth sydd ar gael i ategu eich casgliadau? Nodwch isod

Adroddiadau'r Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro i'r Cabinet - Medi 2017.
Dogfen Ymgynghori Cyhoeddus ar y Cynnig

7. Mewn meysydd lle mae effaith negyddol wedi'i nodi a oes unrhyw ffyrdd y gallai'r effaith negyddol gael ei lleihau neu ei dileu? Nodwch isod a chynnwys y dystiolaeth y mae eich casgliad yn seiliedig arni.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi.

CYFRANOGI AC YMGYNGHORI

9. Pa gyfranogi ac ymgynghori sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r polisi hwn (neu bolisi tebyg) a beth yw'r canlyniadau?

Mae'r cyfarfodydd ymgynghori/digwyddiadau agored canlynol i'w cynnal

Yr ysgol yr effeithir arni	Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
YGG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Mawrth 7 Tachwedd am 3.45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Llun 6 Tachwedd am 3.45pm	YG Garth Olwg
YGG Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun 6 Tachwedd am 1.45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun 6 Tachwedd am 2.25pm	YG Garth Olwg
Y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa i rieni a'r cyhoedd	Dydd Llun 4 Rhagfyr am 3.30pm	YG Garth Olwg

Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i'r ysgolion ymgynghori â disgyblion, drwy gyfarfodydd eu Cynghorau Ysgol fel y nodwyd yn y tabl uchod.

Cafodd manylion am y cynnig eu harddangos yn Llyfrgell Pentre'r Eglwys am gyfnod yr ymgynghoriad. Roedd holiadur ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor hefyd yn <http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>

Mae croeso i bartïon â diddordeb gyflwyno eu barn drwy ysgrifennu at:

Y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tîm Ysgolion yr 21^{ain} ganrif
Tŷ Trevithick
Abercynon CF45 4UQ

e-bost schoolplanning@rctcbc.gov.uk

MONITRO AC ADOLYGU

10. Pa drefniadau rydych wedi eu rhoi ar waith i adolygu effaith wirioneddol y polisi pan fydd wedi cael ei weithredu?

Bydd timau gwella ysgol, cymorth llywodraethwyr ac AD y Cyngor yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynorthwyo'r corff llywodraethu dros dro i sefydlu'r ysgol newydd, gan gynnwys cynnig cyngor a chynorthwyo â'r broses o benodi'r swyddi uwch reoli. Bydd y cymorth hwn yn parhau â'r pennaeth newydd a'r corff llywodraethu parhaol cyhyd ag y bo angen.

MYND I'R AFAEL Â'R EFFAITH

11. Pa opsiwn rydych wedi'i ddewis o ganlyniad i'ch asesiad effaith?

- Parhau â'r Polisi

Nodwch eich penderfyniad a rhowch resymau drosto.

Mae'r dystiolaeth a amlinellir yn ein dogfen ymgynghori yn argymhell yn glir mai dyma'r dull cywir.

12. CYNLLUN GWEITHREDU

Nawr mae angen ichi gwblhau'r cynllun gweithredu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i amlinellu sut y byddwch yn gweithredu ar unrhyw effeithiau a nodwyd. Efallai y bydd angen i chi flaenoriaethu o ran pa gamau gweithredu y byddwch yn dewis eu cymryd a'r amserlenni i'w

cwblhau. Yn gyffredinol, dylech geisio gweithredu ar bob effaith negyddol oni bai bod rheswm clir o ran pam nad yw hyn yn bosibl. Gallech hefyd nodi camau gweithredu ar gyfer effeithiau cadarnhaol neu niwtral lle y bo'n briodol h.y. i amlinellu a hyrwyddo ymhellach effaith gadarnhaol neu amlinellu sut i sicrhau bod rhywbeth yn cael effaith gadarnhaol yn lle effaith niwtral.

CYNLLUN GWEITHREDU ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen ar gyfer Gweithredu	Amserlen a gweithredoedd ar gyfer Adolygu	Mesurau i'w cymryd i werthuso effeithiau camau gweithredu
Ymgymryd â'r broses ymgynghori statudol i greu'r ysgol newydd	Tîm Ysgolion yr 21 ^{ain} ganrif	Erbyn mis Rhagfyr 2017		
Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, sefydlu corff llywodraeth dros dro a darparu cymorth a chefnogaeth i sefydlu'r ysgol newydd	Tîm Ysgolion yr 21 ^{ain} ganrif Swyddogion AD	Erbyn mis Medi 2018		

13. Amlinellwch isod unrhyw effeithiau negyddol sydd wedi'u nodi yn yr holiadur Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ond nad ymdriniwyd â hwy yn y cynllun gweithredu. Bydd angen i chi esbonio eich rhesymau dros beidio â mynd i'r afael â hwy.

Dim.

Cadwch gopi o'r holiadur a'r cynllun gweithredu ac anfonwch gopïau i'r canlynol:

Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyfiawnder Cymdeithasol

Y Pafiliynau

Parc Hen Lofa'r Cambrian

Clydach

CF40 2XX

E-bost: cydraddoldeb@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Ffôn: 01443 424075

Llofnodwyd: Esther Thomas Dyddiad: 1/10/17

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes